

Buddugoliaeth i wledydd tlawd yn COP27, ond be nesaf?



Protestio yng Nghaerdydd

Mae COP, y gynhadledd flynyddol ar newid hinsawdd, a gynhaliwyd eleni yn Sharm El-Sheikh, bellach wedi dod i ben.

Yn hwyr yn y dydd, tuag at ddiwedd y pythefnos o drafodaethau, cytunwyd i sefydlu cronfa colled a difrod, hynny yw, cronfa arbennig i gefnogi'r gwledydd a'r cymunedau mwyaf bregus yn yr argyfwng hinsawdd, lle nad yw addasu i'w effeithiau bellach yn bosib. Yn y manau hyn mae cartrefi wedi'u colli oherwydd bod lefelau dŵr yn codi, tir ffermio yn troi'n anialwch a seiclonau eithafol a thanau gwyllt yn dinistrio'r tir. Mae'n amhosib adfer yr hyn a ddifrodwyd ac adennill yr hyn a gollwyd.

Mae'n anodd disgrifio yn union pa mor fawr oedd y penderfyniad yma yn COP27, yn enwedig i'n cyd-weithwyr a'n partneriaid sydd wedi bod yn gweithio mor hir am ganlyniad o'r fath. Mae'n cydnabod yr angen am gyfiawnder i'r gwledydd sydd wedi'u heffeithio fwyaf, ond wedi cyfrannu leiaf eu hunain at yr argyfwng.

Mewn ymateb i ganlyniad yr uwchgynhadledd, dywedodd Joab Okanda, Cynghorydd Polisi Cymorth

Cristnogol Pan Affrica: 'Mae hon yn fregus yn sgil yr argyfwng hinsawdd ac i'r gymdeithas sifil sydd wedi bod yn galw am hyn ers 30 mlynedd. Am y tro cyntaf, bydd gan gymunedau bregus gronfa arbennig ar eu cyfer i'w cynorthwyo i ddelio â'r golled a'r difrod dinistriol maen nhw wedi'u profi. Mae'r frwydr i sicrhau'r gronfa yma wedi bod yn frwydr hir ar gyfer y gwledydd sy'n datblygu. Y manylion sy'n bwysig nawr, ac mae angen inni weld y gronfa'n cael ei llenwi ag arian. Ond mae hwn yn gam positif tuag at gyfiawnder hinsawdd.'

Mae'n rhaid inni hefyd ddweud 'Diolch!' i'r eglwysi a miloedd o unigolion ar draws Cymru a Phrydain sydd wedi ymuno â ni yn yr alwad am weithredu ynghylch colled a difrod yn ystod y flwyddyn allweddol ddiwethaf. Dros flwyddyn yn ôl, fe gychwynnodd yr eglwysi ar siwrnai gyda Chymorth Cristnogol i godi mater 'colled a difrod' gyda Llywodraeth Prydain ac yn yr uwchgynhadledd. Yn COP26 y llynedd, dim ond sôn argyryon y gynhadledd oedd y pwnc hollbwysig hwn. Mae eglwysi Cymru wedi ymuno â'r alwad am gyfiawnder ac wedi

sicrhau bod y neges am golled a difrod yn weledol i'n cymunedau. Ac ar 12 Tachwedd, yn ystod COP27, ymunodd ein cefnogwyr â'r gorymdeithiau yn ystod y Diwrnod Byd-eang o Weithredu, gan gynnwys rhai yng Nghaernarfon a Chaerdydd. Mae pob gorymdaith, pob deiseb, pob trafodaeth gyda gwleidyddion, pob digwyddiad a phob gweddi wedi cyfrannu at wireddu'r nod mawr hwn. Diolch o galon.

Ond, fely dywed Joab, mae yna lawer eto i'w wneud. Er bod cytundeb dros greu cronfa colled a difrod, doedd dim cytundeb ar faint o arian fydd yn y gronfa, pwys fyddai'n cyfrannu ati, na chwaith dros ba gyfnod o amser. Roedd hefyd yn siomedig clywed llawer o eiriau dwys a chadarnhaol gan arweinwyr byd ar ddechrau'r gynhadledd, ond wedyn gweld bod y gwledydd wedi methu ymrwymo i leihau eu defnydd o danwyddau ffosil. Felly, mae cymaint ar ôl inni godi llais a gweddiö amdano.

Be nesaf? Mae'n bwysig ein bod yn parhau i ddeall mwy am fater colled a difrod ac yn cadw'r achos hwn ar ein hagenda fel eglwysi. Mae pecyn colled a difrod Cymorth Cristnogol 'Rise Up Pay Up' ar gael i eglwysi ar y wefan, gyda syniadau am sut i rannu gwybodaeth am y pwnc ac i weddiö. Wrth inni nesau at y Nadolig, beth am fanteisio ar y cyfle ar ôl COP27 i weithredu a gweddiö dros y mater hwn, wrth fyfyrto hefyd ar yr apêl Nadolig sy'n canolbwyntio ar effaith yr argyfwng hinsawdd ym Malawi?

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns.

Mari McNeill
Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru



Protestio yng Nghaernarfon

Cymdeithasfa'r Gogledd yn Wrecsam – rhai argraffiadau

Bu'n braf iawn croesawu'r Gymdeithasfa i Gapel y Groes ac Ebeneser yn Wrecsam, ddydd Mawrth, 8 Tachwedd, ac fe gafwyd ysbryd hyfryd gydol y dydd. Roedd yn deimlad braf fod pobl yn gallu cyfarfod yn y cnawd eto, o ogledd Cymru benbaladr ac o'r Glannau a'r Gororau. Diolch i bawb o'r eglwysi a gydweithiodd i wneud y diwrnod yn un hwylus.

Agorwyd efo addoliad gan Marian Lloyd Jones, a osododd gywair y diwrnod, ac roedd y cyfnodau o addoli i gyd yng ngofal medrus chwirydd o wahanol ardaloedd.

Dyma rai argraffiadau:


Roedd yn dda cael y cyfle i ddiolch i flaenoriaid sydd wedi gweithio dros nifer fawr o flynyddoedd. Dewi Hughes o Gapel Soar, Nercwys, oedd yn cael ei longyfarch am ei wasanaeth fel blaenor am 60 mlynedd, a ddewiswyd i ddweud gair ar ran pawb a longyfarchwyd eleni. Daw Dewi yn wreiddiol o Goed Talon, lle mae'n parhau i fyw ger yr hen gapel. Dwi'n cofio cael gwahoddiad gan Dewi a'i wraig, Margaret, i siarad mewn oedfa i bobl ifanc yng Nghapel Coed Talon yn y 1980au, yn fy nyddiau fel cyflwynydd radio lleol. Roedd y gwahoddiad hwnnw'n allweddol yn fy mhenderfyniad i fynd i bregethu'n gynorthwyol.



Dewi Hughes, Nercwys

Roeddem yn arbennig o falch o gael presenoldeb y Parch. Ddr D. Ben Rees, Lerpwl, yn y Gymdeithasfa i nodi ei garreg filltir nodedig, sef trigain mlynedd yn y weinidogaeth – yng Nghymoedd De Cymru i ddechrau, ac yna yn Lerpwl. Ymatebodd yn ysbrydoledig,

yn ddiolchgar ac yn heriol ar ran yr holl weinidogion a oedd yn cael eu longyfarch eleni.



Y Parch. Ddr D. Ben Rees

Soniwyd yn y Gymdeithasfa am Strategaeth Gweinyddu a Pholisi Amgylcheddol, ac am 14 swydd newydd fydd ar gael o Ionawr 2023 ymlaen, yn rhan o gynlluniau'r Gronfa Arloesi Newydd. Wrth i amser fynd yn ei flaen, mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar gyfleoedd fel y rhain er budd prosiectau cenhadol yn ein hardaloedd. Yma, cyfeiriwyd at y rhai sydd yn yr arfaeth yn Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, yn yr Wyddgrug ac yn Rhosllannerchrugog.

Roedd yn braf clywed mwy gan Nan am apêl Hadau Gobaith Cymorth Cristnogol, ac am y gwaith a gefnogir yn Honduras yng Nghanolbarth America, ac am Ddiwrnod Gweithredu'r Amgylchedd.

Cawsom hefyd gyflwyniad i gynllun GOLUD sy'n ymwneud â'n cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia i fedru dal gafael yn eu ffydd. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am y cynllun a'r adnoddau hyn sy'n codi ymwybyddiaeth o'r modd y gallwn fod yn gynhwysol a chroesawgar, yn ymarferol ac yn naturiol yn ein capeli.

Roedd yr Oedfa Ordeinio yn oedfa orfoleddus a phositif, a'r ddau ifanc – Alun Morton Thomas a Nerys Griffiths – mor hynaws, ac yn codi ein calonnau i gyd. Bydd ardaloedd Llanfair-pwll, lle mae Alun eisoes yn gwasanaethu fel gweithiwr, a Llanrug a chyffiniau Caernarfon, lle mae Nerys wedi ei galw, ar eu hennill; yn wir, mae'r bobl ifanc hyn wedi gwneud eu marc yn barod. Diolch i bawb a fu'n eu paratoi a'u hysgogi, a phob dymuniad da iddyn nhw. Cymerwyd rhan gan nifer o'r rheiny yn y gwasanaeth ordeinio ac fe'n harweiniwyd at y cymun wedyn gan y Parch. Evan Morgan.

Bu'r cyfnod o ymddiddan efo'r ddau ymgeisydd a gynhaliwyd ar ddiwedd eisteddiad y prynhawngyda'r Parch. Bryn Williams (yntau'n cael ei longyfarch am gyflawni 40 mlynedd yn y weinidogaeth) yn un melyn. Cawsant gyfle i fyfyrion am eu taith ffydd a chyflwyno'u gobeithion ar gyfer y dyfodol, y naill a'r llall ohonynt wedi eu magu ym Môn: Alun yng Nghaergybi a Nerys yn y Fali. Diolchwn am law Duw arnynt a gweddiwn am fendith ar eu teuluoedd a'u gweinidogaeth i'r Arglwydd yn ein plith.

*Aled Lewis Evans
Wrecsam*



Eric Greene (Llywydd y Sasiwn), Alun Morton Thomas, Nerys Griffiths, Nan Powell-Davies (Ysgrifennydd Cyffredinol), Evan Morgan (Llywydd y Gymanfa Gyffredinol) ac Elwyn Richards (Ysgrifennydd y Sasiwn)

Gorwelion Newydd i Gristnogaeth21




'Gorwelion Newydd' oedd thema cynhadledd flynyddol Cristnogaeth21, a gynhaliwyd yn rhithiol eleni fore Sadwrn, 19 Tachwedd. Braf oedd gweld llong sgrin o wyneb - rhai cyfarwydd a rhai'n ymuno am y tro cyntaf.

Yn dilyn gair o groeso gan Anna Jane Evans, Cadeirydd C21, cafwyd cyfle yn ystod y defosiwn i wrando ar neges heriol Mia Mottley, Prif Weinidog Barbados, i gynrychiolwyr cynhadledd COP27 yn yr Aifft, gan wneud inni sylweddoli ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb ohonom i weithredu ar frys i geisio achub y blaned fregus hon.

Y siaradwr gwadd oedd John Roberts (BBC), ac yn ei sgwrs gychwynnol ar y testun 'Heriau'r Dydd', amlinellodd nifer o'r heriau sy'n wynebu pobl o ffydd y dyddiau hyn, gan gofio am weddi Crist mai'r nod yw bod yn un eglwys. Cyfeiriodd at yr her o geisio darganfod yr hyn sy'n gyffredin rhyngom a'r bobl rydyn ni'n anghytuno â nhw, o sicrhau cydbwysedd iachus rhwng ein hargyhoeddiadau a chwestiynu iachus, ac osgoi'r perygl o fynd i rigol ddiwinyddol saff.

Awgrymodd fod sefydliadau eglwysig, yn wyneb y dirywiad presennol, yn tueddu i ganolbwyntio ar ddefnyddio'u hadnoddau i geisio dal eu gafael yn dynn ar yr hyn sy'n weddill o draddodiadau'r gorffennol yn hytrach na chael eu trawsnewid ar gyfer y dyfodol. Cyfeiriodd hefyd at yr her o ddatblygu arweinyddiaeth addas ac addoliad sy'n cyfathrebu neges Efengyl Crist gan ddefnyddio syniadau a geirfa sy'n berthnasol i ni heddiw.

Rhannwyd yn grwpiau i drafod amrywiol heriau neges John, a gafodd ei disgrifio gan un o'r mynychwyr fel 'cawod oer - poenus, ond bendithiol'.



Yn y sesiwn nesaf, cafwyd amlinelliad o weithgarwch diweddar Cristnogaeth21, yn cynnwys y wefan ar ei newydd wedd (<https://www.cristnogaeth21.cymru/>) a'r tri grŵp gweithredol a sefydlwyd yn ddiweddar. Yna, rhannwyd yn grwpiau trafod yn ôl diddordeb y mynychwyr.

Mae'r grŵp Materion Cymdeithasol, dan arweiniad Dafydd Iwan a Gareth Ioan, wedi bod yn edrych ar y sefyllfa pan fydd adeiladau eglwysig yn dod ar y farchnad, rhywbeth sy'n digwydd yn bur aml y dyddiau hyn, wrth gwrs. Yn hytrach na gwerthu adeilad am y pris masnachol uchaf, trafodwyd yr angen i geisio'u defnyddio er budd y gymuned leol, lle mae'n bosib. Gall hyn olygu ffurfio partneriaethau â sefydliadau addas i ddarparu canolfan gymunedol neu dai i'w gosod ar rent i denantiaid.

Dewisodd y grŵp Undod Eglwysig, dan arweiniad Pryderi Llwyd Jones, graffu

ar gyfarfodydd blynyddol yr enwadau anghydfurfiol Cymraeg eleni, yn ogystal â chynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifenyddion Cyffredinol a hefyd â nifer o ieuenctid sydd â diddordeb yn y gwaith. Gwelwyd cymaint oedd yn gyffredin o fewn y cyfarfodydd hyn, ac y gallai fod yn sail i gydweithio pellach. Yn dilyn hyn, mae'r grŵp wedi cyhoeddi apêl a datganiad yn gwahodd yr enwadau i fynd ati yn ddiymdroi i sefydlu comisiwn i ystyried undod eglwysig. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i: <https://www.cristnogaeth21.cymru/post/datganiad-ar-undod-eglwysig>, a chroesewir ymateb ar y cyfryngau cymdeithasol arferol.

Yn y grŵp Diwinyddiaeth ac Adnoddau, dan arweiniad Anna Jane Evans ac Anna Vivian Jones, ystyriwyd sut i gyfathrebu neges greiddiol y Beibl mewn iaith sy'n ddealladwy ac yn berthnasol i'n dyddiau ni. Teimlid bod angen cael cyfleoedd i drafod a chyfnewid syniadau mewn ffordd agored a deunydd addoli sy'n addas i'n sefyllfa gyfoes.

Yn ei sylwadau clo, cyfeiriodd John at yr angen i ymateb ar frys i'r argyfwng cyfundrefnol sy'n ein llethu. Ychwanegodd fod angen i'r ymateb hwnnw fod yn un creadigol, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau a chan gadw mewn cof mai ein perthynas â Duw yw'r peth hanfodol. Yr her fwyaf mewn gwirionedd yw sut rydyn ni'n dangos cariad, yn 'rhoi cwtsh' i unigolion, i'r gymdeithas o'n hamgylch, ac yn wir i'r byd.



Marian Beech Hughes

Lansio Eglwys y Bobl



Y cyfranwyr gyda'u copiau o'r gyfrol

Ar noson aeafol ganol Tachwedd braf fu croesawu dros 50 o bobl i Athrofa Sant Padarn yn Llandaf, Caerdydd, ar gyfer lansio *Eglwys y Bobl*, sef cyfrol newydd o fyfyrddodau Beiblaidd ar gyfer pob un Sul o'r flwyddyn. Canlyniad cydweithio rhwng yr Athrofa a Chyngor yr Ysgolion Sul yw'r gyfrol, sy'n cynnwys 67 o fyfyrddodau a darlenniadau, a hynny yn Gymraeg a Saesneg. Mae'n addas i bawb sy'n arwain gwasanaethau mewn capeli ac eglwysi, ac yn arbennig mewn gwasanaethau dwyieithog.



Aled Davies yn cyflwyno copi o'r gyfrol i Manon Ceridwen James

Paratowyd y myfyrddodau'n wreiddiol gan nifer o glerigwyr ar hyd a lled Cymru, mewn project a drefnwyd gan Manon Ceridwen James ac Angharad Gaylard o Athrofa Sant Padarn. Wedi derbyn y myfyrddodau, rhai yn Gymraeg a rhai yn Saesneg, aeth Mair Jones Parry ati wedyn ar ran Cyhoeddiadau'r Gair i gyfieithu'r cynnwys, er mwyn sicrhau bod pob myfyrddod ar gael yn y ddwy iaith.


Cafwyd croeso cynnes yn yr Athrofa, gyda digon o luniaeth a gwin, a chyfle i sgwrsio a thrafod. Braf hefyd oedd gweld cynifer o'r cyfranwyr wedi gwneud ymdrech i fod yno, gyda nifer ohonynt yn dweud mai hwn oedd y tro cyntaf iddynt gael eu henwau mewn llyfr.

Estynnwyd croeso i bawb gan Manon, ac aed ati i lansio'r gyfrol, gydag Aled Davies yn cyflwyno copi i'r Athrofa, drwy

law Manon, a hefyd i Ffion, sy'n gweithio i'r Athrofa, oedd yn derbyn copi ar ran ei mam yng nghyfraith, sef Mair Jones Parry o Ros-lan yn Eifionydd, cyfieithydd y gyfrol. Roedd hwn yn gyd-ddigwyddiad ffodus iawn, a braf oedd gweld Mair yn ymuno drwy Zoom, ac yn dyst i Ffion yn derbyn y copi ar ei rhan.

Cafwyd gair o werthfawrogiad am y gwaith gan Rheinallt Thomas ar ran y wasg, a chan Jeremy Duff, cyfarwyddwr yr Athrofa.

Bellach, mae'r gyfrol ar gael yn eich siop Gymraeg leol neu ar gwales.com. Mae modd prynu'r llyfr hefyd fel e-lyfr ar wefan www.ysgolsul.com. Mae'n gyfrol swmpus, maint A4, ac yn fargen am £13.99. Bwriedir cyhoeddi cyfrol gyffelyb ymhenni y flwyddyn, gan mai dilyn blwyddyn A o'r Llithiadur y mae *Eglwys y Bobl* yn ei wneud.



Beth sydd mewn enw?

Wrth fynd ymlaen yn nhymor yr Adfent a dod yn nes at Wyl y Geni, ry'n ni'n cofio bod enw'r plentyn y byddai Mair yn ei eni wedi ei ddewis a'i ddatguddio iddyn nhw ymlaen llaw. Fel arfer, rhan o'r paratoi ar gyfer genedigaeth yw trafod enwau posib ar gyfer y newydd-ddyfodiad. Mae rhai yn mynd at y goeden deulu, eraill yn hoffi sŵn enw; mae'n bwysig meddwl pa lysenwau y gallai eraill eu defnyddio ... cymaint o ffactorau i'w hystyried!

Enwau mwyaf poblogaidd Cymru yn 2021 oedd Noa i fachgen ac Olivia i ferch. Mae rhai'n meddwl bod Noa yn dod o fôn sy'n golygu 'gorffwys' ac mae hefyd yn cael ei gysylltu â 'cysur/rhyddhad'. Mae'n debyg mai 'heddwch' yw ystyr Olivia.

Roedd enw Iesu wedi ei benodi gan Dduw, a'i fynegi i Joseff a Mair drwy angylion. Dywedodd Gabriel hyn wrth Mair mewn ymweliad personol, tra mae Joseff wedi derbyn y neges mewn breuddwyd. Ychwanegodd yr angel ym mreuddwyd Joseff pam y byddai'r plentyn yn cael ei enwi'n Iesu – oherwydd y byddai'n achub ei bobl oddi wrth eu pechodau.

Mae Iesu yn ffurf ar Ieshwa / Ieoshwa – 'ei achubiaeth yw'r ARGLWYDD'. Mae hyn yn dangos bod enw Iesu wedi ei ddewis i ddangos pwrpas a nod ei fywyd yn y byd. Mae 1 Ioan 3.5 yn dweud: 'Yr ydych yn gwybod bod Crist wedi ymddangos er mwyn cymryd ymaith bechodau; ac ynddo ef nid oes pechod.'

Ry'n ni'n gweld yn glir mai pwrpas Crist yn dod i'r byd oedd gwahanu pechadur oddi wrth ei bechodau. Gwnaeth hyn drwy fyw heb bechod ei hunan, a marw dros ein pechodau ar y groes. Dywedodd Ioan Fedyddiwr amdano: 'Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd!'


Caiff nifer o bechodau eu rhestru yn y Beibl. Dyma restr sy'n codi o'r deg gorchymyn, Rhufeiniaid 1, 1 Corinthiaid 6, Colosiaid 3, Galatiaid 5 a 2 Timotheus 3.

Mae'r deg gorchymyn yn nodi grwpiau o bechod mewn gwirionedd: addoli unrhyw dduw ond yr Arglwydd; gwneud siâp o Dduw i'w addoli; cymryd Duw yn ysgafn; peidio â rhoi diwrnod i addoli Duw; diffyg parch at rieni a theulu; lladd a chasineb; godineb ac anfoesoldeb rhywiol tu fa's i briodas gŵr a gwraig; lladrata; celwydd; chwennych a thrachwant. (Exodus 20)

Ceir mwy o fanylion yn y rhestrau eraill: addoli eilunod; addoli pleser yn hytrach na Duw; gwasanaethu'r cread yn lle'r Creawdwr; ffurf allanol crefydd heb ei nerth mewnol; bod yn anufudd i rieni; peidio â gofalu am deulu; gwylltio a cholli tymer; malais; enllib; cweryla; cynnen; cenfigen; anfoesoldeb rhywiol; cyfunrywiaeth; meddwod; cyfeddach; brad; twyll.



Eglwys Sant Dyfnog, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch



Ffenestr Jesse, Eglwys Sant Dyfnog, Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Llun: Llywelyn2000, CC BY-SA 3.0 (Wikimedia Commons)

O weld y rhestr yma, sydd heb gynnwys popeth a elwir yn bechod, mae'n amlwg ein bod oll yn bechaduriaid. Hefyd, fe ddywed Iesu fod ein pechodau yn dod o'r tu mewn, o'r galon. Mae'r Beibl hefyd yn dweud bod pechod yn arwain at farwolaeth – gwahanu oddi wrth Dduw o ran perthynas; gwahanu corff ac ysbryd; colled dragwyddol yn uffern. Mae'n hynod o beryglus!

Ond newyddion gwefreiddiol yr Efengyl yw bod Crist wedi dod, nid i'n condemnio, nid i'n gadael dan gondemniad am ein pechodau, ond i'n hachub oddi wrthynt. Oherwydd gwaith Iesu, fe gawn galon newydd wrth i'r Arglwydd ddod i'n bywyd yn nerth yr Ysbryd Glân. Mae hyn yn golygu cyffesu pechodau, edifarhau a thrstio yn Iesu Grist fel ein Hachubwr a'n Harglwydd. Mae'n addo tri pheth. Cawn ein hachub rhag:

- condemnio pechod: 'Yn awr, felly, nid yw'r rhai sydd yng Nghrist Iesu dan gollfarn o unrhyw fath';
- caethiwed pechod: 'Ni chaiff pechod arglwyddiaethu arnoch, oherwydd nid ydych mwyach dan deyrnasiad cyfraith, ond dan deyrnasiad gras';
- cwmni pechod: 'Yr ydym yn gwybod, pan fydd ef yn ymddangos, y byddwn yn debyg iddo, oherwydd cawn ei weld ef fel y mae'.

Diolch am Iesu; diolch iddo fyw yn ôl ei enw. Gadewch i ni weld pa mor beryglus yw pechod, nes bod Duw wedi dod i'r byd yn ddyn i'n hachub oddi wrtho. Diolch nad oes raid i'n pechodau ein diffinio; diolch nad oes raid i bechod gael y gair olaf; diolch fod achubiaeth yn Iesu.

John Treharne

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

10 Prawf, methiant, bendith

Darllen: Genesis 12:10–20

Yr wyf wedi nodi eisoes y ffordd y mae'r Beibl yn gignoeth am gryfderau a gwendidau 'cewri' mwya'r ffydd, ac wrth ddod at yr hanes hwn, daw hynny yn amlwg. Rhaid cofio bod Galatiaid 3:7 yn dweud wrthym 'am bobl ffydd, mai hwy yw plant Abraham'. Rhaid ei fod yn wir felly fod pobl ffydd yn bobl sy'n parhau i fod yn gyfuniad o'r gwych a'r gwachul, yn bobl sy'n diolch am y gwirionedd a geir yn 1 Ioan 2:1–2: 'Fy mhlant, yr wyf yn ysgrifennu'r pethau hyn atoch i'ch cadw rhag pechu. Ond os bydd i rywun bechu, y mae gennym Eiriolwr gyda'r Tad, sef Iesu Grist, y cyfiawn; ac ef sy'n lawn dros ein pechodau, ac nid dros ein pechodau ni yn unig, ond hefyd bechodau'r holl fydd.'

Peth chwithig iawn fyddai i un ohonom sy'n adnabod ein hunain, a hyd yn oed yn gweld ychydig o beth a wél Duw yn ein calonau, fod yn rhywun sy'n llawdrwm ar bechodau eraill. Nid bod hynny wedi golygu nad yw pobl, ac i bob golwg yn gynyddol felly, yn ymroi gyda brwdfrydedd i bwyntio allan feiau tybiedig. Mae beiau i'w cael, ac mae'r Cristion yn eu hadnabod yn well yn ei chalon/galon ei hun nag yn mywyd neb arall. Yr hyn sy'n rhyfeddol yw fod Duw yn Dduw llawn gras, ac yn achos ei bobl yn barod i faddau beiau. Y rhyfeddol yn yr hanes yma yw nid yn gymaint fod Abraham yn gweithredu'n gwbl amhriodol, ond fod Duw yn cadw'i addewid, a thrwy hynny'n cadw Abraham. Gras sy'n golygu bod y cyfamod gras yn cael ei ddiogelu gan Dduw pob gras. I Paul, ei hyder yw: 'nid oes tynnu'n ôl ar roddion graslon Duw, a'i alwad ef.' (Rhufeiniaid 11:29)

Mae'r adran yn tystio i brawf ar Abraham. I un oedd wedi ei fagu yn nyffryn mwyaf ffrwythlon Persia, roedd yn anghyfarwydd â newyn, ac yn wir, pwy a wŷr nad oedd yn ei chael yn anodd credu bod Duw yn ei

ddwyn i'r fath brawf. Roedd wedi gadael y cyfan; roedd wedi ufuddhau, ac yn awr mae amgylchiadau'n ei orfodi, yn ei dyb ef, i adael y wlad y cafodd ei alw iddi. Wedi dweud hyn, roedd newyn yn ffenomenon naturiol iawn, a cheir enghreifftiau o amryw yn y Beibl yn symud yn wyneb newyn, fel am resymau eraill, pobl fel Jacob, Naomi ayyb. Yn achos pobl fel Jacob, mae Duw yn galw arno i symud i'r Aifft, a chawn fod Mair a Joseff hefyd wedi symud i'r Aifft oherwydd bwriadau Herod.

Nid yw mynd felly ynddo'i hun yn bechod, ond yn hanes Abraham gwelwn fod mynd iddo ef wedi ei arwain i anghredu addewid Duw, a thrwy wneud hynny rhoi bywyd ei wraig mewn perygl a gosod yr addewid am had mewn perygl. Mae'r celwydd golau y mae'n ei rannu i bob golwg yn talu iddo gan fod Pharo yn hael iawn tuag ato (adn. 16), ond beth am Sarah? Yn fwyaf arbennig, beth am ei alwad i fod yn dyst i ffydd yn Nuw, ffydd sydd i'w gweld yn ein gweithredoedd. I mi, y siom fwyaf am yr holl ddigwyddiad yw fod Pharo, dyn oedd ddim yn adnabod Duw, yn dyst i'r celwydd yma. Beth bynnag am y rheswm dros y newyn, mae'n amlwg y dylem ddarllen yr adran hon, fel adrannau eraill tebyg, yng ngoleuni'r hyn a ddywed Paul: 'Digwyddodd y pethau hyn yn esiamplau i ni, i'n rhybuddio rhag chwenychu pethau drwg, fel y gwnaethant hwy.' (1 Corinthiaid 10:6)

O ystyried yr adran fel prawf, rydym yn cadw mewn cof fod y Beibl ar ei hyd yn ein paratoi i sylweddoli bod profion o'r fath yn rhan annatod o'n bywyd. I Iago, fel i Pedr, ni ddylai hyn fod yn syndod (Iago 1:2 a 1 Pedr 4:12). Gyda'r profion hyn fe ddaw temtasiwn. Does dim sôn am godi allor i geisio ewyllys Duw cyn symud i'r Aifft, ond mae tystiolaeth i'w fwriad i'w ddiogelu ei hun ar draul diogelwch Sarah, a hynny er bod ganddo addewidion Duw. Mae Abraham fel ninnau yn ddibris o ganlyniadau anufudd-dod. Er iddo ennill cyfoeth a meddiannau yn yr Aifft, eto, y

cyfoeth hwn oedd yn rhannol gyfrifol am yr anghytundeb â Lot, heb sôn am yr hyn oedd i ddeillio o'i berthynas â Hagar, sef y 'forwyn' ddaeth gyda nhw yn ôl o'r Aifft (Genesis 16:1).

Ond, mae'r adran yn cyfeirio at rywbeth mwy na phrawf ar ffydd Abraham gan fod yr adnodau hefyd yn ein hatgoffa o'r gwirionedd: 'os ydym yn anffyddlon, y mae ef yn aros yn ffyddlon, oherwydd ni all ef ei wadu ei hun' (2 Timotheus 2:13). Fel y nodais, doedd dim am Abraham, ac yn sicr dim am ei weithredoedd, oedd yn peri ei fod yn haeddu cael ei gadw yn yr Aifft, cael dod o'r Aifft, a chael dod yn ddyn llawer mwy cyfoethog na'r Abraham aeth yno. Dro ar ôl tro yn Genesis fe ddown wyneb yn wyneb â'r Duw sy'n diogelu ac yn darparu er sicrhau ei addewidion. Mae'r addewidion hyn mor gadarn fel na all hyd yn oed ei bobl mo'u chwalu. Gair o obaith yw'r stori. Efallai y byddwn yn edrych ar ein pechod ac yn meddwl ein bod wedi fforffedu bendith Duw. Gallwn edrych ar fethiannau pobl Dduw—cyfaddawd bydol, cyfeiliornad, arweinwyr yn cefnu, rhagrith, sgandal—a meddwl tybed sut y bydd yr Eglwys fyth yn cyflawni'r dibenion sydd gan Dduw ar ei chyfer. Ond peidiwch ag anghofio: bydd yn bendithio ei bobl. Efe a adeilada ei eglwys, ac ni fydd pyrth uffern yn ei gorchfygu. Nid yw hyn yn esgus i ni fod yn ddiog, heb sôn am fod yn anufudd, ond mae'n rheswm dros obaith.

1. Meddyliwch am enghreifftiau lle y byddwn yn gweld beiau eraill, yn arbennig pan fo'r beiau hynny'n esgusodi neu'n tynnu sylw oddi ar ein beiau ni.
2. Pa dreialon neu brofion sydd wedi bod ar eich ffydd yng ngofal a chariad Duw? Beth ddsygydd gennych yn y treialon yma?
3. Mae'r Beibl yn dweud mai Iesu yw'r Un sy'n adeiladu ei Eglwys, ac yn sôn hefyd am ei bobl fel cyd-adeiladwyr. Sut ydych chi'n deall y berthynas rhwng yr Un sy'n adeiladu a'r cyd-adeiladwyr?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol Sul, 4 Rhagfyr am 7.30yh

Adfent 2 – Mae pawb yn haeddu Nadolig hapus. Ond mae'r argyfwng costau byw yn brathu, a miloedd o deuluoedd yn brwydro i gadw dau ben llinyn ynghyd. Byddwn yn ymweld ag elusen yn Abertawe sy'n rhoi bwyd ar y bwrdd i rai mewn angen. A bydd Nia'n cwrdd â gwirfoddolwyr yn Sir Gâr sy'n benderfynol o roi Nadolig i'w gofio i blant difreintiedig.

BBC

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr Sul, 4 Rhagfyr, am

7:30yb a 4:30yp

Cyfraniad rhai o'n cyfansoddwyr clasurol i'n hemynyddiaeth, gydag Elin Manahan Thomas

Sul, 4 Rhagfyr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Margaret Jones, Port Talbot

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Dewch i ganu carolau a dathlu'r Nadolig

Eglwys y Santes Fair, Dinbych

Nos Sul, Rhagfyr 4ydd

Drysau ar agor am 5.30y.h.

Recordio am 6y.h.

Arweinydd: Leah Owen

Croeso i bawb

Ffydd a diwylliant

Yma o hyd, ac o hyd ac o hyd

Dwi wedi crio fy siâr dros yr wythnosau diwethaf yma. ‘Blybro’ drwy ‘Hen Wlad fy Nhadau’, colli mwy o dagrau dros fuddugoliaethau na cholledion bron, ac wrth gwrs mae'r dagrau'n llifo drwy ‘Yma o Hyd’. Bob tro.

Dwi'n falch o ngwlad a fy iaith. Dwi'n falch o'r tîm pêl-droed. Dwi'n rhyfeddu at eu taith ac yn falch fy mod wedi neidio ar y trê, yn hwyr yn y dydd. Dwi'n falch dros Dafydd Iwan ac yn rhyfeddu at daith y gân, a'i daith o'n bersonol a'n taith ninnau fel cenedl, ar y cae ac oddi arno fo. Ydan, rydan ni ‘Yma o Hyd’ ac mae'r byd i gyd yn gwybod.

Mae yna hud rhyfedd i ganu torfol. Nid perffeithrwydd corawl, dwi'n feddwl, ond sgrechian canu, baglu canu dros eiriau anghyfarwydd, trio canu a chrio canu. Harmoneiddio'n flêr a bloeddio canu mewn unrhyw gywair ond yr un cywir.

O ganu felly ar eich pen eich hun, fe fyddai'ch ffaeledau'n gywilyddus o amlwg i'r byd i gyd i'w gweld. Ond o sefyll mewn torf, mae pob cyfraniad yn wych ac yn wachul, yn toddi'n greadigaeth bersain a chyfan gwbl wefreiddiol.

Mae'r gân yn ddeugain oed. Deugain mlynedd yn ôl roedd Cymru yn dal wedi



Llun: Lowri Fron

ei llorio gan ganlyniad pleidlais datganoli 1979, a thra oedd hi ar lawr fe ddaeth Thatcher a'i chicio'n ddirugaredd: diberfeddu'r gweithfeydd glo, sgrapio'r gweithfeydd dur, rhoi cwotas ar laeth a gwerthu tai cyngor. Do, fe roddodd y Gymdeithas a Gwynfor dolc yn y ddynes ddu, ac erbyn 1982 roedd S4C yn darlledu a'r wlad ar ei thraed eto, wedi ysgwyd y llwch o'i llewys, sgwario'i ysgwyddau ac yn barod i ganu, er gwaethaf pawb a phopeth, ei bod hi ‘yma o hyd!’

Ond dwi wedi cael digon ar ‘Yma o Hyd’. Ar ôl Cwpan y Byd mae'n bryd anghofio amdani. Ysbryd 1982 sydd iddi wedi'r cwbl. Rhyw hen deimlad o oroesi. Efalla'i fod o'n deimlad dewr, herfeiddiol: ‘Gwna di dy waethaf, fe dro’ i'r foch arall, ac fe fydda i yma o hyd.’ Ond mae yna gleisiau a chreithiau yn perthyn i'r gân, llygaid duon a chloffni er gwaetha'r sgwario. Siawns nad ydan ni bellach wedi goroesi. Siawns nad ydy hi'n bryd byw.

Fe fu dyrnaid ffyddlon o gefnogwyr Cymru yn dilyn eu gwlad drwy'r dyddiau duon. A dwi'n falch dros Dewi Prysor a ffyddloniaid tebyg. Fe fuon nhw mewn stadiymau gwag mewn llefydd fel Tbilisi, a ninnau'n colli (0-5) yn Nhachwedd 1996. Ac wrth gerdded drwy'r eirlaw yn chwilio am far drud a digroeso fe ganon nhw ‘Yma o Hyd’. Canu mewn llefydd lle nad oedd torf. Dwi'n falch drostyn nhw, yn ddiolchgar amdany'n nhw, a dwi'n gweld dim bai arny'n nhw os ydyn nhw'n edrych braidd yn ddilornus ar gefnogwyr tywydd teg fel fi. Mae'r rhain yn ddyddiau melys iawn iddyn nhw.

Ond mae yna wers i ni i gyd yn nameg Dafydd Iwan a'r tîm pêl-droed. Diolch byth am ‘Yma o Hyd’ ond siawns nad ydy hi'n bryd i ni newid ein cân.

‘I'r Gad!’ a ‘Cherddwn Ymlaen’.

Arwel Rocet Jones

Cyflwyno medal Gee er anrhydedd i Tom Defis

Gyda 22 o fedalau Gee eisoes wedi eu cyflwyno yn ystod 2022, cafwyd cyfle i gyflwyno'r olaf ohonynt am eleni mewn cyfarfod arbennig o gwrdd chwarter yr Annibynwyr a gynhaliwyd bawn lau, 24 Tachwedd, yng nghapel Blaen-y-coed, ger Cynwyl Elfed. Roedd hon yn fedal arbennig ac yn cael ei chyflwyno gan Gyngor yr Ysgolion Sul i gydnabod cyfraniad oes at weithgarwch yr ysgol Sul a gwaith plant ac ieuencid yng Nghymru. Dros y 30 mlynedd diwethaf cyflwynwyd tua 20 o'r rhain, a bellach cafwyd cyfle i gydnabod cyfraniad nodedig y Parchedig Tom Defis at y dystiolaeth Gristnogol ymhlith plant ac ieuencid Cymru.

Yn ystod y bore cynhaliwyd cyfarfod o'r cwrdd chwarter ym Mlaen-y-coed, ac wedi cinio blasus yn y festri, aed yn ôl i'r capel ar gyfer oedfa gymun, a chyfle i gyflwyno'r fedal cyn rhannu'r sacramentau. Y Parch. Tom Evans oedd yn llywyddu, ac fe'n harweiniwyd at fwrdd y cymun gan y Parch Gareth Ioan.

Ond cyn gwneud hynny, galwyd ar Aled Davies o Gyngor yr Ysgolion Sul i gyflwyno'r fedal. Bu'n dda cael cwmni Nigel Davies yno hefyd, un a fu'n gweithio i'r Cyngor am dros 18 mlynedd, ac a gafodd llawer o gwmni a chefnogaeth gan Tom yn ystod y cyfnod hwnnw. Cafwyd gair o werthfawrogiad am gyfraniad Tom i'r gwaith, cyn i Aled osod y fedal o gwmpas ei wddf. Roeddem mor falch fod Tom wedi llwyddo i gyrraedd yno'r prynhawn hwnnw, gan ei fod yn dal i wella a chryfhau ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.



Y Parch. Tom Defis gyda Nigel Davies ac Aled Davies

Wrth ymateb i dderbyn y fedal, diolchodd yn gynnes am y cyfleoedd a gafodd i wasanaethu, ac am y cydweithio hapus dros y blynyddoedd. Mynegodd hefyd pa mor falch ydoedd o dderbyn y fedal ym Mlaen-y-coed, gan mai yno, yn yr ysgol Sul, y cychwynnodd yntau ar ei daith ysbrydol yn blentyn ifanc iawn.

Bu Tom yn Gadeirydd ar y Cyngor am dymor, ac yn aelod selog a chefnogol ohono ers dros 30 mlynedd. Bu'n gymwynaswr mawr, yn cario llyfrau o gwmpas y wlad, heb sôn am ei gymorth (yn y fan fach goch) yn helpu i osod stondinau yn y gwyliau cenedlaethol. Diolchwn iddo am oes o wasanaeth rhadlon. Dymunwn bob dymuniad da am adferiad iechyd llwyr iddo, ac am gydweithio hapus eto yn y dyfodol.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Adfent 2 – ‘Ganwyd gwreiddyn Jesse’n faban bach’

Emyn 448: ‘Wele’n gwawrio ddydd i’w gofio’

Gweddi

Arglwydd, rhyfeddwn o’r newydd at dy ras, dy gariad a’th amynedd tuag at fyd mor haerllug o hurt â’n byd ni. Diolchwn i ti ein bod wedi ein cymell i ymofyn amdanat, ti yr hwn wyt yn ffynhonnell ac yn darddle gobaith. Diolchwn i ti am y proffwydi a fu’n ‘ymofyn ac ymorol’ yn ddyfal am dy ffyrdd wrth iddynt gyhoeddi ‘am y gras oedd i ddod i chwi’. Diolchwn am y gobaith a addawyd, a wireddwyd ac a gyhoeddwyd i’r byd drwy Iesu Grist. Tyrd, Ysbryd Glân, a chrea ynom dymuniadau am y gras hwnnw heddiw. Amen.

Cyflwyniad

Gall, fe all galar mewn rhai achosion droi’n garchar tywyll a difaol. Fel y gall clwyf chwerwi a throi’n septig, gall gafael galar ymledu a dinistrio bywyd y dioddefwr.

Er hynny, ni fynnai neb ohonom fod heb y gallu i i deimlo galar. Galaru, wedi’r cyfan, yw brath colli rhywun, neu rywbeth, a garwn. Dagrau galar yw drych profiad llawenydd cariad. Na, ni fynnai unrhyw un ohonom fod heb y gallu i garu.

Galarai Eiseia dros y bobl a garai, y genedl a’r genhedlaeth o arweinwyr anffyddlon y perthynai iddi. Gwyddai fod diwedd brenhiniaeth Jwda ar y gorwel. Roedd teyrnas Israel eisoes wedi peidio â bod ac roedd yr anghyfiawnder oedd yn rhemp yn y wlad yn gwanhau ac yn difetha’r wlad. Byddai colli’r brenin o dras Dafydd a diddymu brenhiniaeth Jwda yn siom o’r radd flaenaf. Ar yr olwg gyntaf fe allai’r genhedlaeth anffyddlon gyfiawnhau ei hun drwy fynnu nad oedd yr Arglwydd yn ffyddlon i’w addewid chwaith, neu o leiaf nad oedd yn alluog i gadw ei air.

I fyd sy’n gwingo gan ganlyniadau ei gwrthryfel yn erbyn ei chrëwr, i bobl sy’n wylo ac yn galaru wrth weld yr hyn sy’n annwyl iddynt yn dihoeni ac yn darfod, cyhoeddwyd gair o obaith sy’n parhau hyd heddiw i adleisio yn ein clyw ac yn nyfnder ein heneidiau.

Darlleniad: Eiseia 11:1–10 – Cangen o Jesse Rhaid a bywyd

Awgrymodd rhai sylwebyddion o’n pentref mai rhaid eolegol oedd yn gyrru’r awydd i dorri’r goeden geirios urddasol a dyfai yn yr ardd. Pan dorrwyd y goeden gadawyd

boncyff difwyd, ond profwyd asesiad y coedwigwr yn gywir, sef bod ei chanol yn hollol bwdr. Drwy’r gwanwyn canlynol gwelwyd saethau o egin yn codi yn y gwair. Gwialenni ceirios oeddynt, yn tyfu o’r gwraidd, a bywyd yn mynnu tarddu o’r hyn oedd yn ymddangos yn ddifywyd.

Duw ar waith

Tebyg oedd gweledigaeth ryfeddol Eiseia. O foncyff a ymddangosai’n bwdr ac yn ddifywyd, rhagwelodd Eiseia ddyfodiad un yr oedd ei frenhiniaeth *nefol* yn tarddu’n *ddaearyl* o gyff Jesse. Nid gwleidydd Wtopaid arferol mo’r hwn a ddeuai i gyflawni addewid yr Arglwydd. Roedd Ysbryd Duw ei hun ar waith drwyddo.

Cymeriad y llywodraethwr

Byddai Ysbryd Duw yn ‘gorffwys’ ar y llywodraethwr oedd wedi ei addo, a byddai saith rhinwedd Ysbryd Duw yn cael eu hamlygu drwyddo (Datguddiad 1:4). Llywodraethwr ‘doeth’ ag ‘ofn yr Arglwydd’ oedd yr hwn a ddeuai’n farnwr. Byddai saith rhinwedd a fyddai’n nodweddu ei gymeriad yn weithredol hefyd. Byddai doethineb a deall yn sicrhau barn ddi-dderbyn-wyneb, a chyfiawnder yn nodweddu ei holl gyngor. Byddai nerth ac awdurdod yn caniatáu iddo weithredu barn gyfiawn a gwardigol. Byddai’r cyfan oll yn tarddu o’i ffyddlondeb diwyro (adn. 2–5).

Camp y llywodraethwr

Mewn cyfres o ddarluniau tyner cyhoedda’r Arglwydd, drwy Eiseia, ryfeddod y trawsfurfiad a fyddai’n amlwg pan fyddai ei frenhiniaeth wedi ei sefydlu’n derfynol. Bydd hyd yn oed y byd naturiol, arferol, yn cael ei drawsffurfio. Ni reibir yr oen na’r myn gan flaidd a llewpard. Caiff melltith Genesis 3:15 ei drawsffurfio, a bydd y plant na allant weld peryg yn ddiogel rhag brath y sarff. Ni fydd niwed, perygl na drwg yn perthyn i’r byd newydd hwn.

Mae’n amlwg fod y fath fanifesto’r tu hwnt i unrhyw blaid wleidyddol ddaearol. Fel y gwelsom yr wythnos diwethaf (Eiseia 2), ni chyflawnir y weledigaeth hyd nes y bydd y ddaear yn llawn i’w hymylon o wybodaeth am ogoniant yr Arglwydd. Ei deyrnasiad grasol ef yw’r allwedd a chynnwys yr addewidion oll. Ffydd yn addewid Duw yw sail ein gobaith a’n gobeithio.

Daeth Teyrnas Nefoedd yn agos yn nyfodiad Iesu Grist, ei goncwest a’i fuddugoliaeth

dros angau a’r bedd. Disgwyl awr cyflawni ei holl addewidion a wna’r Cristion.

Darlleniad: Rhufeiniaid 15:9–13

Nid oes unrhyw amheuaeth, i awduron y Testament Newydd, nad Iesu Grist yw cyflawnwr yr addewidion a wnaed gan y proffwydi.

Mae Paul yn niwedd ein hail ddarlleniad yn pwysleisio’r hyn a ddywedodd eisoes am Iesu (Rhufeiniaid 1:3–4). Yno, cyhoeddir bod Iesu o dras ddaearol Dafydd, ond bod ei atgyfodiad yn dystiolaeth o’i natur ddwyfol.

Ef, nid arall

Daeth Iesu i gynnig gobaith i’r holl genhedloedd, meddai’r Apostol Paul. Gobaith oedd yn gynwysedig yn yr addewidion a wnaed i’r hynafiaid ydoedd. Mewn cyfres o ddyfyniadau o’r Ysgrythurau Iddewig, dangosodd Paul i eglwys oedd yn cynnwys Iddewon a Chenedl-ddynion fod dyfodiad Iesu yn gyflawniad o fwriadau grasol Duw i’r byd yn grwn. Ymhlith y dyfyniadau cyfeiria’n benodol at gyfieithiad Groeg o broffwydoliaeth Eiseia 11.

Fel yn Rhufeiniaid 1:3–4, cyhoeddir mai Iesu yw cyflawniad yr addewid a wnaed drwy Eiseia. Ef, nid arall, yw ‘gwreiddyn Jesse’ a gobaith y byd. Tystiolaethai ei atgyfodiad i’w ogoniant dwyfol.

Wrth ddyfynnu’r cyfieithiad o Eiseia, cyfeiria Paul at ‘y gŵr sy’n *codi* i lywodraethu’r Cenedloedd’. Defnyddia un o’r ddau air a ddefnyddiwyd gan Gristnogion y ganrif gyntaf i sôn am ‘atgyfodiad’ Iesu. Yr hwn sy’n *codi* i gyflawni addewidion Duw ac a godir i fod yn benarglwydd yw’r hwn a *atgyfododd*. Concwerwr angau yw gobaith y cenedloedd.

Gwyddom na ddaw o’r ddaear ond ‘llonyddwch brau’ (chwedl John Roberts yn ei emyn). Daw’r gobaith yr hiraethwn amdano gan Dduw, trwy Iesu, trwy nerth Ysbryd Glân Duw. Ef, nid *arall* yw gwir Arglwydd, gwir sail ein gobaith. Duw ei hun yw’r tarddiad; yn Iesu Grist down i gysylltiad â’r cyfrwng; drwy’r Ysbryd Glân daw realiti gwrthrychol yn brofiad by ynom. Drwyddo ef down yn brofiadol o obaith sy’n arhosol, chwyldroadol a sicr.

Gweddi

Arglwydd Dduw, trwy dy Fab, yng ngallu dy Ysbryd Glân, bendithia dy bobl heddiw â gobaith.

Emyn 464: ‘Ar gyfer heddiw’r bore’

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru

[f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru)

[t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)